

## YNNI TEG CYF. CYLCHLYTHYR, RHAGFYR 2022

# ‘Cyfarchion y Tymor/Season’s Greetings’

# Oddi wrth y bwrdd a’r staff i’n haelodau i gyd!

Annwyl Aelod

Wrth i ni dynnu tua diwedd blwyddyn gythryblus i’r genedl ac yn y sector ynni, roeddem ni o’r farn mai da o beth fyddai rhoi diweddariad i chi o ran ein cynnydd ni yn Ynni Teg. Mae aelodau newydd ar y bwrdd, fy mhenodiad i a thîm newydd ar y staff wedi gallu canolbwyntio o’r newydd ar reolaeth a rhoi ysgogiad newydd i’n gweithgareddau datblygu. Mae refeniw ar i fyny ac mae gwefr wirioneddol yn y sector, ond rydym ni’n ymwybodol o’r anawsterau y mae llawer o bobl yn eu hwynebu’r gaeaf hwn, sy’n pwysleisio’r angen i barhau i weithio yn galed i gyrraedd ein hamcanion ni.

Jon Townend, Cyfarwyddwr Gweithredol

## Gweithgareddau datblygu



Roedd eleni yn flwyddyn brysur eto i'r tîm datblygu. Tristwch i ni oedd ymadawiad Dewi Llwyd Evans am resymau iechyd, ond mae ariannu gan Lywodraeth Cymru wedi caniatáu i ni ehangu'r tîm mewnol ac rydym ni wedi penodi Jane O'Brien a Guy Hopwood yn Rheolwyr Datblygu, mae gan y ddau brofiad eang yn y sector, ac mae Gareth Tucker wedi ymuno â ni nawr yn Beiriannydd Prosiect yn rhan amser.

Mae'r hawliau datblygu yn eu lle nawr ar gyfer dau ddatblygiad cyfredol y gymdeithas – aráe paneli solar arfaethedig Bwlchgwynt [570kWp] sydd allan i'w dendro ar gyfer adeiladu, a thyrbin Penrhiw Fach[1MW]. Mae ein gwaith yn cefnogi datblygiad Fferm Solar Bretton Hall [30MW] yn parhau i fod yn heriol ac yn ymrwymiad pwysig hefyd fel prosiect nodedig i sector ynni cymunedol y DU.

Mae'r codiad sydyn mewn prisiau ynni wedi arwain at gynnydd mewn ymholiadau i'r prosiectau o ystod o sectorau. Yn anffodus, mae capasiti'r 'grid' i dderbyn cynhyrchiant newydd yn gynyddol 'gyfyngedig', yn effeithio ar yr hyn y gallwn ni ddisgwyl ei gyflawni o ddifrif yn y tymor canolig. Rydym ni felly yn rhoi adnoddau mewn ymchwil a datblygu, gan fwriadu amrywio ein gweithgareddau ac ymgysylltu â meysydd newydd [i ni] – e.e. trafnidiaeth a gwresogi cynaliadwy – a'r defnydd o wahanol dechnolegau – storio ynni, cynhyrchu hydrogen ac ati.

## Gweithrediadau ariannol

Er y bu gostyngiad yng nghynhyrchiant blwyddyn weithredol y tyrbin hyd fis Awst o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, mae misoedd Hydref a Thachwedd wedi bod yn llawer mwy gwyntog. Mae prisiau cynyddol ynni dros ail hanner y flwyddyn hon wedi golygu mwy o refeniw o werthu ynni, ac rydym ni'n rhagweld trosiant sylweddol uwch ac incwm net dros ben ar gyfer y flwyddyn ariannol hon [yn diweddu 31ain Rhagfyr 2022].

Yng nghyfarfod blynyddol y llynedd, hysbyswyd yr aelodau y dylai hi fod yn bosibl i wneud yn iawn am y taliad llai o log a dalwyd y llynedd, drwy daliad o log ychwanegol yn y flwyddyn sydd ar ddod, yn amodol ar ddigon dros ben i wneud felly. Bydd y bwrdd yn derbyn cyngor gan ein cyfrifyddion ynglŷn â hyn, ond mae'r rhagolygon yn ffafriol ar hyn o bryd.

## Budd Cymunedol

O ystyried yr anawsterau sy'n wynebu'r cyhoedd eleni a chaledi gwirioneddol i rai, roedd y bwrdd o'r farn ei bod yn briodol i gyfrannu at elusennau cefnogaeth leol mewn da bryd eleni ac, o ystyried y sefyllfa dda ariannol i ddod erbyn diwedd y flwyddyn, i gynyddu'r swm a roddir. Rydym ni'n gobeithio bod mewn sefyllfa i wneud cyfraniad sylweddol eto at gronfeydd budd cymunedol y flwyddyn nesaf hefyd.

## Ehangu'r bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi penodi Joy Kent yn Gadeirydd dros dro tan y cyfarfod blynyddol cyffredinol nesaf ac rydym ni'n ceisio ychwanegu at ei faint, ei brofiad a'i wybodaeth. Rydym ni wedi gwahodd

cynrychiolaeth newydd oddi wrth Ynni Cymunedol Cymru [YCC], fel sy'n ofynnol yn ôl Rheolau'r gymdeithas, ac rydym ni anfon gwahoddiad nawr i aelodau sydd â diddordeb, a anfonwyd atoch chi ar wahân.

## Perthynas â sefydliadau eraill

Am i ni gael ein sefydlu dan nawdd YCC, rydym ni wedi mwynhau eu cefnogaeth agos nhw dros y blynyddoedd diwethaf, nid yn lleiaf o ran sicrhau cyllid i ni, ac rydym ni'n bwriadu meithrin y berthynas honno ymhellach gyda gwaith a mentrau ar y cyd a fydd yn bwydo i mewn i'n gweithgareddau datblygu ni. Rydym ni'n parhau i fwynhau cefnogaeth dda oddi wrth Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar rydym ni wedi ystyried datblygu cysylltiadau mwy agos â sefydliadau ynni cymunedol eraill er budd cyffredinol, felly rydym ni'n gobeithio y bydd mwy o bartneriaethau prosiect yn cychwyn yn 2023.

## Y flwyddyn i ddod

Ar hyn o bryd, rydym ni'n cwblhau'r Cynllun Busnes a'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae tebygolrwydd y bydd cynnydd mawr prisiau o ran pwrcasu ynni i ddefnyddwyr yn parhau'r flwyddyn nesaf ond mae hi'n aneglur hyd yma pa effaith y bydd bil Cap ar Bris Ynni Llywodraeth y DU yn ei gael o ran cadw prisiau cyfanwerthu trydan i lawr. Mae'r cynnydd sydyn o ran chwyddiant ac aneglurder o ran prisiau trydan yn yr hirdymor yn effeithio hefyd ar ein trafodaethau am grantiau gan Lywodraeth Cymru a benthyciadau masnachol, a'r dull gorau o ffactorio'r cynigion buddsoddi posibl i'r aelodau – fe ddylai'r cyfan fod yn fwy eglur erbyn y cyfarfod blynyddol cyffredinol.

Rydym ni'n cynllunio bod â dau brosiect adeiladu ar lawr gwlad yn 2023, er yn anochel yr effeithir arnyn nhw gan chwyddiant ac ansicrwydd yn y gadwyn gyflenwi, y dylen nhw roi rhywbeth gwirioneddol i ni i'w ddathlu erbyn yr amser hwn y flwyddyn nesaf.

Gobeithiwn hefyd am gael dathlu heddwch yn Ewrop unwaith eto.

## Neges o'r Gadair:

Mae hi wedi bod yn dipyn o flwyddyn i fod â rhan mewn ynni cymunedol ac fe hoffwn i ddiolch i bob aelod o'r bwrdd a'r staff am eu brwdfrydedd a'u hymroddiad i YnniTeg a'i amcanion. Fe hoffwn i annog unrhyw aelod hefyd i gael sgwrs â Jon neu â minnau ynglŷn â bod yn gyfarwyddwr. Ni fyddaf i yn y gadair ond hyd y cyfarfod blynyddol ym mis Mehefin a rhwng hynny a nawr fe fyddai hi'n dda o beth i gryfhau'r sgiliau, y wybodaeth a'r amrywiaeth o gylch y bwrdd. Felly peidiwch â bod yn swil – mae hwn yn sefydliad cefnogol a chroesawgar iawn gyda gwaith diddorol i'w wneud ac mae hwn yn amser ardderchog i gyfrannu at ddyfodol ynni cymunedol yng Nghymru.

Sut bynnag y byddwch chi'n treulio'r tymor hwn, mwynhewch y gwyliau ac fe'ch gwelwn ni chi'r flwyddyn nesaf.

Joy Kent, Cadeirydd